

# **Archwiliad Cynllun Datblygu Lleol Amnewid Sir Fynwy 2018-2033 Monmouthshire Replacement Local Development Plan 2018-2033 Examination**

Arolygwyr/Inspectors: J de-Courcey BSc LLB MTPI MRTPI  
C MacFarlane BSc (Hons) MSc MRTPI

Swyddog Rhaglen/Programme Officer: Helen Wilson  
[helen@programmeofficers.co.uk](mailto:helen@programmeofficers.co.uk)  
01432 639547 / 07879 443035

---

Craig O'Connor

Prif Swyddog – Lle a Llesiant Cymunedol

Cyngor Sir Fynwy

2ail Mehefin 2026

Annwyl Mr O'Connor

## **Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Amnewid Sir Fynwy – Cais am Ohirio Sesiynau Gwrandawriad**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 1af Mehefin 2026 ynghylch y mater uchod.

Gan fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â gofynion Rheoliad 23 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005, rydym yn cytuno bod rhaid **gohirio'r Sesiynau Gwrandawriad a drefnwyd i ddechrau ar 16eg Mehefin 2026** nes bod hyn wedi'i gywiro.

Rydym yr un mor ymrwymedig i leihau'r aflonyddwch i amserlen yr Archwiliad a rheoli adnoddau sydd ar gael a ariennir yn gyhoeddus mor ddoeth ac effeithlon â phosibl. Fodd bynnag, yn ogystal â chaniatáu digon o amser i ofynion statudol gael eu dilyn, mae'n rhaid ystyried cyfnod egwyl yr haf sydd ar ddod ac argaeledd yr Arolygwyr a'r Swyddog Rhaglen.

Byddai'r dyddiad cynharaf ar gyfer dechrau'r sesiynau gwrandawriad, gan ystyried gofynion Rheoliad 23, yn gorgyffwrdd â dechrau cyfnod gwyliau haf yr ysgol, ac roedd ein hamserlen wreiddiol yn ceisio'i hosgoi'n benodol oherwydd y cyfyngiadau y gallai hyn eu rhoi ar argaeledd rhai cyfranogwyr. Byddai'n afresymol ac yn annheg dechrau a chynnal sesiynau gwrandawriad yn gyfan gwbl yn ystod y cyfnod hwn ac o bosibl yn rhagfarnu cyfranogiad cynrychiolwyr a oedd wedi nodi eu hawydd i siarad. Er mwyn sicrhau bod cyn lleied â phosibl o gyfranogwyr cymwys yn cael eu hanfanteisio gan gamgymeriad y Cyngor, a gan ystyried ymrwymadau'r Arolygwr a'r Swyddog Rhaglen, y dyddiad cynharaf sydd ar gael ar gyfer dechrau'r sesiynau gwrandawriad yw dydd Mawrth 8fed Medi 2026. Byddwn yn cyhoeddi Rhaglen Gwrandawriadau ddiwygiedig yn seiliedig ar y dyddiad hwn yn fuan.

Ac eithrio'r ymateb ymgynghori sydd heb ei dderbyn gan Cyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas ag atodiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd y Cyngor a gyflwynwyd ar 30ain Ebrill 2026, oni bai ein bod wedi gofyn yn benodol amdano, ni fyddwn yn derbyn cyflwyniadau ysgrifenedig pellach gan unrhyw barti cyn dechrau'r Sesiynau Gwrandawriad ar 8fed Medi 2026.

Os yw unrhyw un o'r materion a nodwyd gennym uchod yn aneglur, cysylltwch â'r Swyddog Rhaglen cyn gynted â phosibl.

Cyhoeddir y llythyr hwn ar wefan yr Archwiliad. Nid ydym yn gwahodd unrhyw sylwadau nac ymatebion gan bartïon â chanddynt ddiddordeb.

Yn gywir iawn,

*J de-Courcey and C MacFarlane*

AROLYGWYR